SESIWN 3: PWY SY'N CYNHYRCHU EIN BWYD?

Ystod oedran: 7-11 oed

<table>
<tr><td colspan="2">Amlinelliad
Bydd y dysgwyr yn deall bod ein bwyd yn cael ei gynhyrchu gan wahanol ffermwyr o amgylch y byd. Byddant yn defnyddio lluniau er mwyn datblygu a herio eu rhagdybiaethau eu hunain ynghylch ffermio. Nesaf, bydd y dysgwyr yn defnyddio astudiaeth achos o Falawi i ystyried rhai o'r heria y mae ffermwyr ar raddfa fach yn eu hwynebu ac atebion i'r rhain, a hefyd yn pennu'r manteision posibl y gallai ffermio ar raddfa fach eu cynnig i gymunedau. Yn olaf, bydd y dysgwyr yn chwarae gêm nadroedd ac ysgolion er mwyn ystyried sut y mae ffermwyr yn addasu i rai o'r heriau hyn.</td></tr>
<tr><td>Amcanion dysgu
• Gwrando ar syniadau pobl eraill ac ymateb iddynt.
• Gwybod bod ffermio yn derm eang sy'n cynnwys gwahanol arferion.
• Deall bod ffermwyr ar raddfa fach yn wynebu sawl her wrth gynhyrchu bwyd.
• Bod yn ymwybodol o rai atebion posibl i'r heriau hyn.</td><td>Deilliannau dysgu
• Bydd y dysgwyr yn herio rhai o'u rhagdybiaethau ynghylch ffermwyr a ffermio drwy archwilio ffotograffau o wahanol arferion ffermio.
• Bydd dysgwyr yn pennu rhai o'r heriau y mae cynhyrchwyr ar raddfa fach yn eu hwynebu.
• Bydd y dysgwyr yn archwilio rhai o'r ffyrdd y mae ffermwyr ar raddfa fach yn addasu i'r heriau hyn.
• Bydd y dysgwyr yn dechrau ystyried anghydraddoldeb o ran bwyd.</td></tr>
<tr><td>Cwestiynau allweddol
• Pwy yw ffermwyr y byd?
• Beth yw ffermwr neu gynhyrchydd ar raddfa fach?
• Pa heriau y mae ffermwyr ar raddfa fach yn eu hwynebu?
• Sut y gellid goresgyn yr heriau hyn?</td><td>Adnoddau
• Sioe sleidiau A (Sesiynau 1–3): Sleidiau 20-37
• Taflen Adnoddau 1: Sut y gall tomatos newid bywydau?
• Taflenni gweithgareddau:
1. Tomatos yn Malawi – Trefnu cardiau
2. Nadroedd ac ysgolion</td></tr>
</table>

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Gweithgaredd 3.1 (30 mun)

Ffermwyr o amgylch y byd

- Nod y gweithgaredd hwn yw galluogi dysgwyr i ddatblygu a herio eu syniadau a'u rhagdybiaethau eu hunain am ffermio. Drwy archwilio detholiad o ddelweddau sy'n gysylltiedig â ffermio ledled y byd, bydd dysgwyr yn deall bod bwyd yn cael ei gynhyrchu gan lawer o wahanol fathau o ffermwyr mewn llawer o wahanol leoedd ledled y byd.
- Dewiswch ddelwedd i'w defnyddio o sleidiau 22 i 31 o *Sioe Sleidiau A*. Gan ddefnyddio bwrdd gwyn rhyngweithiol os yw'n bosibl, arddangoswch ardal ddethol o'r ddelwedd, megis cae padl gwyrdd toreithiog neu gae corn. Fel arall, argraffwch y ddelwedd ac atodwch ddalen o bapur gyda ffrâm wedi'i thorri allan i 'guddio' gweddill y ddelwedd.
- Mewn parau, gofynnwch i'r dysgwyr feddwl am y cwestiynau canlynol a'u trafod (a ddarperir hefyd ar sleid 21): *Ble mae'r lle hwn? Pwy yw'r ffermwr o bosibl? Beth sy'n digwydd yn y ffotograff? Pam yr ydych yn credu hynny? Beth sy'n digwydd y tu hwnt i'r ffrâm?* Rhannwch syniadau'r dysgwyr fel trafodaeth dosbarth cyfan.
- Datgelu'r ddelwedd gyflawn a thrafod ymatebion y dysgwyr. A oedd eu syniadau gwreiddiol am y ddelwedd yn gywir? Os nad oedd pawb yn cytuno, pam ddim? A oeddent yn synnu gweld y ddelwedd gyflawn? Os oeddent, pam?
- Ailadroddwch y gweithgaredd gan ddefnyddio delweddau eraill o'r sioe sleidiau. Ffordd arall o reoli'r gweithgaredd hwn yw trefnu dysgwyr yn grwpiau a rhoi delwedd "rhannol gudd" wahanol i bob grŵp i'w thrafod. Yna gallai dysgwyr rannu eu delweddau a'u syniadau fel dosbarth cyfan.
- Mewn amser trafod, tynnwch sylw at y ffaith bod llawer o wahanol fathau o ffermio a ffermwyr. Er enghraifft, mae llawer o ffermwyr ar raddfa fach yn rhan ddeheuol y byd yn fenywod.

Gwahaniaethu

- Gwneud pethau'n haws: Defnyddiwch y ffotograffau cyflawn i ysgogi trafodaeth dosbarth am ffermio.
- Gwneud pethau'n anos: Gofynnwch i'r dysgwyr ddod o hyd i'w delweddau ffermio eu hunain i'w rhannu gyda gweddill y dosbarth.

Gweithgaredd 3.2 (30 mun)

Tomatos yn Malawi[1]

- Nod y gweithgaredd hwn yw galluogi'r dysgwyr i ddechrau deall yr ystod o heriau sy'n wynebu ffermwyr ar raddfa fach, yn ogystal ag atebion posibl i'r rhain. Bydd dysgwyr yn archwilio ffyrdd gwahanol o gefnogi ffermwyr bach i gynyddu cynhyrchiant bwyd mewn modd cynaliadwy, gan gysylltu achos, effaith ac atebion â'i gilydd ar yr un pryd.
- Dangoswch i ddysgwyr ble mae Malawi ar fap. Defnyddiwch sleid 32 i gyflwyno Malawi a Leyla Kayere (yn ynganu Ka-yer-re). Eglurwch fod Leyla yn ffermwr sydd wedi elwa ar fuddsoddiadau mewn amaethyddiaeth ar raddfa fach a'i bod bellach yn gallu tyfu a gwerthu tomatos i'w rhoi mewn caniau a'u gwerthu. Gofynnwch i'r dysgwyr feddwl am yr heriau y gallai

[1] Cyhoeddwyd gan Oxfam yn 2012

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Leyla a'i theulu eu hwynebu pan fyddan nhw'n ceisio tyfu tomatos. Am wybodaeth ychwanegol gweler *Sut y gall tomatos newid bywydau? (*Taflen adnoddau 1).

- Rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach o dri neu bedwar a rhowch un o'r pedair set o wyth cerdyn llun i bob grŵp o *Tomatos yn Malawi - Trefnu cardiau* (Taflen gweithgaredd 1). Bydd angen torri'r rhain allan a'u cymysgu cyn y gweithgaredd. Eglurwch fod pob set o luniau yn dangos her wahanol y gallai ffermwyr ar raddfa fach ym Malawi ei hwynebu, yn ogystal ag ateb posibl a manteision hyn. Y drefn gywir yw'r un a ddarperir yn y daflen gweithgaredd wreiddiol ar adeg lawrlwytho ac argraffu. Darperir y dilyniannau hyn hefyd ar sleidiau 33 i 36.
- Gofynnwch i'r dysgwyr drafod beth mae'r lluniau'n ei ddangos a dilyniannu'r delweddau i dynnu sylw at y dilyniant o HERIAU, i ATEBION ac yna MANTEISION i'r gymuned leol.
- Gofynnwch i bob grŵp roi adborth i weddill y dosbarth am eu dewisiadau dilyniannu. Tynnwch sylw at y pedair prif her a ddarperir isod ond gwnewch y pwynt mai enghreifftiau yn unig yw'r rhain o broblemau posibl y gallai ffermwr ar raddfa fach ym Malawi eu hwynebu ac efallai y bydd eraill.
    - *Diffyg gwrtaith*
    - *Diffyg arian i fuddsoddi*
    - *Diffyg tir digonol*
    - *Y newid yn yr hinsawdd*
- Cyfeiriwch yn ôl at Leyla Kayere a thrafodwch y cwestiynau canlynol:
    - *Pa sgiliau a rhinweddau sydd gan ffermwyr ar raddfa fach fel Leyla?*
    - *Beth yw'r her fwyaf y mae Leyla yn ei hwynebu?*
    - *Sut mae'r atebion hyn wedi gwella bywyd i Leyla a'i theulu?*
    - *Sut y gall tomatos newid bywydau?*

Gwahaniaethu

- Gwneud pethau'n haws: Lleihau nifer y cardiau drwy ddewis her, ateb a mantais o bob set.
- Gwneud pethau'n anos: Rhowch yr her a'r cardiau ateb i ddysgwyr o un o'r setiau a gofynnwch iddyn nhw feddwl am ffyrdd y gallai'r ateb ddod â manteision i'r gymuned leol yn ogystal â ffermwyr unigol.

Gweithgaredd 3.3 (30 mun)

Nadroedd ac ysgolion

- Nod y gweithgaredd hwn yw galluogi dysgwyr I ddeall ymhellach yr amrywiaeth o heriau sy'n wynebu ffermwyr ar raddfa fach yn ogystal â gwerthfawrogi gwahanol ffyrdd y gellir cefnogi ffermwyr ar raddfa fach i gynyddu cynhyrchiant bwyd yn gynaliadwy.
- Trefnwch y dysgwyr yn grwpiau o dri neu bedwar. Rhowch gopi o *Nadroedd ac ysgolion* i bob grŵp (Taflen gweithgaredd 2 - a ddarperir hefyd ar sleid 37), pâr o ddis a rhai cownteri.
- Eglurwch fod angen i ddysgwyr gymryd eu tro i rolio'r dis a symud eu cownter ar hyd y bwrdd, gan ddilyn unrhyw "ysgolion" neu "nadroedd" y maent yn glanio arnynt wrth iddynt symud ymlaen. Syniad y gêm yw i'r dysgwyr brofi llwyddiant, yn ogystal â rhwystrau wrth geisio ennill

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

felly gall fod yn syniad da gadael iddyn nhw chwarae'r gêm heb fawr o drafodaeth ymlaen llaw a gwrando ar unrhyw sgyrsiau sy'n codi wrth iddyn nhw chwarae.

- Caniatewch amser ar ôl y gêm i ddysgwyr fyfyrio ar eu profiadau a'u trafod. Ymhlith y cwestiynau trafod posibl y mae:
  - *Beth oedd y nadroedd/heriau/rhwystredigaethau?*
  - *Beth oedd yr ysgolion/atebion/cyfleoedd?*
  - *Beth ddysgoch chi am fywydau ffermwyr ar raddfa fach yn Malawi drwy chwarae'r gêm hon?*
  - *Sut ydych chi'n meddwl y gallai'r atebion (ysgolion) fod o fudd i ffermwyr ar raddfa fach a'u cymunedau?*

Syniadau Pellach

- Gofynnwch i'r dysgwyr feddwl am a thrafod sut y gallai un neu fwy o'r delweddau newid yn ystod y flwyddyn. Fel arall, gallai dysgwyr dynnu llun o'r hyn y credant yw cartref neu gymuned unrhyw bobl sy'n gysylltiedig â'r delweddau (fel ffermwr neu weithiwr fferm). Trafodwch luniau'r dysgwyr a'u hannog i roi rhesymau dros eu syniadau.
- Gallai dysgwyr hŷn neu ddysgwyr mwy galluog ddarllen *Sut y gall tomatos newid bywydau?* (Taflen adnoddau 1) i gael gwybod mwy am Leyla Kayere. Cefnogwch y dysgwyr i ddeall ystyr geirfa allweddol yn y testun. Gofynnwch i'r dysgwyr feddwl am yr heriau y mae Leyla yn eu hwynebu yn ogystal ag atebion posibl a manteision y rhain. Pa gwestiynau yr hoffai'r dysgwyr eu gofyn i Leyla?
- Gallai dysgwyr greu rysáit cawl tomato sy'n cynnwys yr holl gynhwysion sydd eu hangen i lwyddo i ffermwr ar raddfa fach fel Leyla. Mae hwn yn gyfle da i dynnu sylw unwaith eto at botensial ffermwyr ar raddfa fach, os cânt eu cefnogi i oresgyn yr ystod o heriau y maent yn eu hwynebu.

Telerau defnyddio

Hawlfraint © Oxfam GB

Gallwch ddefnyddio lluniau a gwybodaeth berthnasol yn yr adnodd hwn i ddibenion addysgol yn eich sefydliad addysgol. Bob tro y byddwch yn ei defnyddio, rhaid i chi gydnabod y ffotograffydd sy'n cael ei enwi ar gyfer y ddelwedd honno, ynghyd ag Oxfam. Ni chewch ddefnyddio'r delweddau na'r wybodaeth gysylltiedig i ddibenion masnachol, nac y tu allan i'ch sefydliad addysgol. Mae'r holl wybodaeth sy'n gysylltiedig â'r delweddau hyn yn berthnasol i'r dyddiad a'r adeg y cafodd y gwaith prosiect ei gyflawni.

Sut y gall tomatos newid bywydau?

Taflen Adnoddau 1A

Mae Leyla Kayere yn byw yn Mnembo yn ne Malawi, gwlad fach yn ne Affrica. Mae hi'n gwneud bywoliaeth drwy dyfu tomatos.

Dywed Leyla: "*Cefais fy ngeni yma ac rwyf wedi byw yma drwy gydol fy mywyd. Pan oeddwn yn tyfu i fyny, nid oedd amaethyddiaeth mor ddatblygedig ag ydyw erbyn hyn. Doedden ni ddim yn gwybod dim am ddyfrhau. Dim ond cassava a millet yr oeddem yn arfer eu tyfu – i'w bwyta, nid i'w gwerthu. Roedd tomatos gwyllt o bryd i'w gilydd ond nid oedd gennym ddull o'u tyfu. Fydden ni ddim yn gallu byw heb domatos nawr. Pan fyddwch chi'n coginio hebddynt mae'r bwyd yn blasu'n ofnadwy".*

Mae pethau wedi newid er gwell yn Mnembo. Mae tai brics newydd gyda thoeau haearn yn cael eu hadeiladu ym mhobman, gan ddisodli'r hen dai mwd gwellt. Mae llwybrau'n brysur gyda beiciau, yn aml wedi'u llwytho â choiliau o haearn ar gyfer toeau neu fasgedi newydd sy'n llawn llysiau ar y ffordd i'r farchnad. Mae'r gweithgaredd hwn yn ganlyniad i gynllun dyfrhau a ariennir gan Oxfam. Sefydlwyd y cynllun gyda chefnogaeth barhaus gan Oxfam am ddwy flynedd.

Mae'r tir yn cael ei or-ffermio ac yn dod yn fwyfwy anffrwythlon. Mae cynaeafau'n mynd yn llai. Ac, o ganlyniad i newidiadau yn yr hinsawdd, mae'r glawiad yn Malawi yn gynyddol anghyson. Mae hyn yn arwain at sychder amlach a difrifol neu ddinistrio cnydau pan fo'r glaw yn ddwys ac yn anrhagweladwy. Mae'r ddau yn arwain at brinder bwyd. Mewn gwlad sydd â chyfnodau sych hir ond llawer o afonydd, mae dyfrhau yn ateb amlwg.

Mae cynllun dyfrhau Mnembo wedi helpu i wella bywydau 400 o deuluoedd drwy drawsnewid eu cnydau cynnyrch isel bach traddodiadol yn gynaeafau blwyddyn, cyfaint uchel sy'n darparu bwyd parhaus a ffynhonnell incwm. Mae'r gymuned bellach yn gwbl hunangynhaliol.

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Sut y gall tomatos newid bywydau?

Taflen Adnoddau 1

Gyda chymorth cychwynnol gan Oxfam, mae pentref ffermio Mnembo wedi llwyddo i ddod at ei gilydd i gynaeafu a gwerthu eu cynnyrch mewn swmp. Yn ogystal â chynaeafu indrawn mwy a gwell, mae'r tir sydd newydd ei rigio yn galluogi'r gymuned i arallgyfeirio a thyfu cnydau arian parod. Maent bellach yn tyfu gwenith, reis a thomatos.

Tomatos yw'r cnwd mwyaf proffidiol. Mae'r gymuned yn cynaeafu ddwywaith y flwyddyn ac yn gwerthu fel cwmni cydweithredol i Ffatri Canning Mulanje Peak Foods (sy'n gwerthu sudd tomato mewn caniau a phiwrî tomato mewn archfarchnadoedd ledled Malawi). Ar ôl y prosiect, a heb unrhyw gefnogaeth gan Oxfam, cynaeafodd y gymuned 53,000 tunnell o domatos (ddwywaith) a gwnaeth ddigon o elw i ddechrau newid eu bywydau.

Darllenwch stori Leyla i weld os allwch nodi ystyr y termau allweddol hyn.

Dyfrhau

Cynhaeaf

Anffrwythlon

Proffidiol

Cymuned

Cnydau arian

Cydweithredol

Meddyliwch ...

Pa gwestiynau yr hoffech eu gofyn i Leyla?

Pa heriau y mae Leyla yn eu hwynebu?

Beth yw'r atebion posibl?

Beth yw manteision yr atebion hyn?

Beth fydd yn digwydd i Leyla a'i chymuned yn y dyfodol?

Cydnabyddiaeth y lluniau: Abbie Taylor/Oxfam

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Tomatos yn Malawi – Trefnu cardiau

Taflen gweithgaredd 1a



Copyright © Oxfam GB. You may reproduce

Nid oes gan ffermwyr bach lawer o arian i brynu gwrtaith ar gyfer cnydau.

Mae ychydig o wrtaith ac erydiad tir yn golygu nad yw planhigion yn tyfu'n dda.

Gan nad yw planhigion yn tyfu'n dda nid yw'r cyflenwad bwyd ar gyfer y gymuned yn ddigon i bawb.

Mae ffermwyr bach yn derbyn gwrtaith a benthyciadau bach gan grwpiau llywodraeth leol.

Mae gwrtaith yn ei gwneud hi'n bosibl i dyfu cnydau o wahanol fathau, ee tomatos, cnau daear, tatws melys a gwenith.

Mae hyn yn golygu bod mwy o fwyd a gwell maeth ar gyfer y gymuned leol

Mae digon o fwyd bellach felly gall bwyd ychwanegol gael ei werthu am elw yn y farchnad.

Gall teuluoedd brynu gofal iechyd ar gyfer aelod o'r teulu sy'n sâl.

Source = **Ffynhonnell**

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Tomatos yn Malawi – Trefnu cardiau

Taflen gweithgaredd 1b

Malawi is a small country with little land for farming.

Source: http://commons.wikimedia.org/Wiki/

Large estates growing tobacco tea, sugar and other crops for export own the best land.

Source: http://commons.wikimedia.org/Wiki/

So small farmers are left with little space for their farms.

© Annie Bungeroth/Oxfam

Small farms don't let you grow a lot of food.

© Debbie Yazbek/Oxfam

The farmers put their land together to make a larger piece of land, and farm together

© Debbie Yazbek/Oxfam

Working together saves time so they can grow lots of crops like rice, wheat and tomatoes.

Source: http://commons.wikimedia.org/Wiki/

This means they can sell food in bigger amounts to the local factory and super-market.

© Abbie Traylor-Smith/Oxfam

The community can use the money to make a grocery shop and a tea room.

© Annie Bungeroth/Oxfam

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Gwlad fach yw Malawi ble nad oes llawer o dir ar gyfer ffermio.

Ystadau mawr sy'n tyfu tybaco, te, siwgr a chnydau eraill i'w hallforio sy'n berchen ar y tir gorau.

Nid oes gan ffermwyr bach felly lawer o le ar gyfer eu ffermydd.

Ni allwch dyfu llawer o fwyd ar ffermydd bach.

Mae'r ffermwyr yn rhoi eu tir at ei gilydd er mwyn creu darn mwy o dir, ac maent yn ffermio gyda'i gilydd.

Mae cydweithio yn arbed amser fel y gallant dyfu llawer o gnydau fel reis, gwenith a thomatos.

Mae hyn yn golygu y gallant werthu mwy o fwyd i'r ffatri ac i'r archfarchnad leol.

Gall y gymuned ddefnyddio'r arian i greu siop fwyd ac ystafell de.

Source = **Ffynhonnell**

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Tomatos yn Malawi – Trefnu cardiau

Taflen gweithgaredd 1c



Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Nid oes gan ffermwyr lawer o arian i brynu hadau, ddim llawer o hyfforddiant ac nid oes ganddynt ond hadau sy'n tyfu'n araf.

Mae adnoddau cyfyngedig yn golygu na all ffermwyr ond blannu ychydig o hadau bob blwyddyn.

Mae hyn yn golygu nad oes digon o fwyd yn cael ei dyfu i fwydo'r gymuned.

Mae ffermwyr yn derbyn pecynnau cychwynnol o hadau a gwrtaith, gyda hyfforddiant.

Gall y gymuned yna gynaeafu tomatos ddwywaith y flwyddyn a thyfu cnydau mwy amrywiol.

Caiff y tomatos hyn eu gwerthu i'r ffatri leol.

Mae'r ffatri leol yn creu sudd tomato mewn caniau a phiwrî i archfarchnadoedd ledled Malawi.

Mae gwerthu'r tomatos o ddau gynhaeaf bob blwyddyn yn rhoi arian ychwanegol ar gyfer anfon plant i'r ysgol.

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Tomatos yn Malawi – Trefnu cardiau

Taflen gweithgaredd 1d

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Mae'r newid yn yr hinsawdd yn arwain at lawiad nad oes modd ei ragweld.

Mae hyn yn achosi sychder mwy difrifol a mwy aml, gan achosi i'r tir erydu.

Mae sychder ac erydiad pridd yn difetha cnydau, felly caiff llai o fwyd ei dyfu.

Mae'r gymuned leol yn cydweithio i adeiladu sianel o'r afon leol i'r caeau.

Mae hyn yn golygu bod dŵr ar gael gydol y flwyddyn ac yn lleihau erydiad y pridd.

Mae gwell cyflenwad dŵr yn golygu bod mwy o indrawn yn cael ei dyfu.

Gall indrawn gael ei werthu i greu bwydydd fel creision ŷd, popgorn a chreision *tortilla* mewn gwledydd eraill.

Caiff yr arian a godir drwy werthu indrawn ei ddefnyddio i brynu deunyddiau toeau ac i adeiladu cartrefi newydd.

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Nadroedd ac ysgolion **Taflen gweithgaredd 2**

4	**Mae eich cymuned yn adeiladu system ddyfrhau newydd felly mae gennych fynediad at ddŵr**
14	**Ni allwch gael gafael ar ddŵr gydol y flwyddyn felly mae'ch cnydau wedi'u difetha**
23	**Nid oes gennych unrhyw arian i brynu hadau**
25	**Rydych yn adeiladu sianel ddŵr newydd o'r afon i'ch fferm**
33	**Rydych yn defnyddio dulliau ffermio traddodiadol gan nad ond yn tyfu unwaith y flwyddyn**
40	**Mae gwyntoedd cryf yn difetha eich cnydau**
49	**Rydych yn rhannu tir gyda ffermwyr eraill yn eich cymuned er mwyn ffermio darn mwy o dir**
44	**Rydych yn derbyn gwrteithiau er mwyn gwneud eich pridd yn fwy ffrwythlon.**
42	**Mae'ch caeau yn rhy fach**
54	**Rydych yn derbyn pecyn cychwynnol o hadau amrywiol**
51	**Mae plâu yn bwyta eich cnydau oherwydd y tywydd poeth**
62	**Mae'ch llywodraeth leol yn darparu cyllid ar gyfer hadau da**
65	**Rydych yn defnyddio hadau gwael felly nid oes llawer o gnydau'n tyfu**
73	**Rydych yn defnyddio hadau sy'n creu gwell cnydau**
78	**Rydych yn cael hyfforddiant mewn technegau ffermio newydd felly gallwch blannu gydol y flwyddyn**
89	**Mae cwmnïau mawr yn cymryd y tir gorau felly nid oes ond tir gwael a bach ar gael i chi.**
82	**O na! Mae eich pentref yn dioddef o sychder**
94	**Mae hi'n rhy gynnes ac mae'r pridd yn sych**
100	**RYDYCH WEDI ENNILL! RYDYCH WEDI CYNHYRCHU DIGON O FWYD AR GYFER EICH TEULU A'R FARCHNAD!**

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.



Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.